# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 2 Mawrth 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

3 Cwestiynau i Gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gyllid sydd wedi cael ei ddyrannu i ddatblygu Cymru fel Ardal Economaidd Carbon Isel ar gyfer technolegau tanwydd carbon isel a hydrogen. (WAQ55704)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

Funding has been awarded to a University of Glamorgan project entitled CymruH2Wales. This three-year project valued at £6.3m which is part of the activities of the Low Carbon Research Institute, is part-financed by the European Regional Development Fund from the Convergence Programme and part funded by the University.

The University has also been awarded £240,000 for its South Wales Alternative Fuel Gateway project. This project is part funded by the UK Department for Transport’s Alternative Fuel Infrastructure Grant Programme and part funded by the University of Glamorgan.

**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion trafodaethau a oedd yn cynnwys ei swyddfa a'r Adran Drafnidiaeth ynghylch datganoli pwerau ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau bws yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ55706)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Rwyf eisoes yn datblygu'r GCD ar Drafnidiaeth sy'n ceisio rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran i ddysgwyr wrth deithio. Yn ogystal â hyn, rhoddodd Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 sawl pŵer newydd wedi'u hatgyfnerthu i Weinidogion Cymru o ran gwasanaethau bws, er enghraifft Partneriaethau Ansawdd.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Beth fydd safon amgylcheddol adeiladwaith y tai a ddatblygir drwy ddefnyddio'r £42 miliwn a ddyrannwyd i ddarparu 400+ o dai fforddiadwy dan Gyfran 2 proses y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol. (WAQ55703) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies**): Dyrannwyd £42 miliwn o Gyfran 1 y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol i sicrhau 400+ o dai fforddiadwy. Mae'n rhaid i'r tai a gaiff eu hadeiladu ar dir a brynwyd fel rhan o'r rhaglen hon fodloni "Gofynion Ansawdd Cynllunio" Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cynnwys safon amgylcheddol lefel 3 y Cod Cartrefi Cynaliadwy. Cyflwynwyd gofyniad hefyd, yn sgîl polisi cynllunio newydd a ddaeth i rym ar 1 Medi 2009, i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tai sy'n cynnwys pum uned neu fwy fodloni lefel 3 y Cod Cartrefi Cynaliadwy gan wella ar yr angen i leihau carbon sy'n rhagori ar ofynion Rheoliadau Adeiladu o 31%. Mae'n ofynnol i dai a brynir o'r sector preifat (sydd wedi'u cwblhau neu sy'n cael eu hadeiladu) gyrraedd y safonau effeithlonrwydd a gynhwysir yn Safon Ansawdd Tai Cymru.

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**: Fesul corff GIG, faint a wariwyd ar driniaethau homeopathi ym mhob un o'r deg mlynedd diwethaf. (WAQ55698)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Beth yw'r sefyllfa o ran cael gwared ag asbestos o ysbytai yn hen Ymddiriedolaeth Iechyd y Rhondda a Phontypridd, beth sydd wedi cael ei wneud er 2004 a beth sydd ar y gweill. (WAQ55701)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau a gymerwyd er mis Mai 2009, pan gafodd tri aelod o staff eu gwahardd gan Ymddiriedolaeth Cwm Taf ar ôl datgelu nad oedd cael gwared ag asbestos mewn nifer o safleoedd ysbytai wedi cael ei wneud yn iawn, i sicrhau bod y sefyllfa'n cael ei chywiro. (WAQ55702)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Mae hwn yn fater i Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Faint o gleifion ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol a gafodd driniaeth (manipulation) (yn hytrach na therapi â llaw) ar gyfer poen gwaelod y cefn a ddioddefwyd am rhwng chwe wythnos a blwyddyn yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2009 a mis Rhagfyr 2009 (gan gynnwys y misoedd hynny). (WAQ55705)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y meini prawf a ddefnyddir i asesu llwyddiant y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid. (WAQ55699)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Bwriad y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (YESS) yw helpu o leiaf 500 o bobl ifanc i ddod yn benaethiaid daliadau busnesau amaethyddol hyfyw yn ystod pum mlynedd y cynllun. I'r perwyl hwn, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn buddsoddi isafswm o £7.5 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf newydd, gydag isafswm cyfatebol o £7.5 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf, preifat newydd.

Mae YESS hefyd yn ceisio hybu cydweithredu rhwng cenedlaethau, drwy ei raglen fentora, ac mewn partneriaeth â Cyswllt Ffermio, waith cynllunio busnes effeithiol, cymorth addysg a hyfforddiant wedi'i dargedu a chynllunio gweithredol ar gyfer olyniaeth.

## *Gofyn i Gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Beth oedd y gost i Gomisiwn y Cynulliad yn sgil cynhyrchu'r holl ddeunyddiau (gan gynnwys taflenni, llyfrynnau, llawlyfrau, posteri, bathodynnau, matiau cwrw, cardiau

post a gwahoddiadau ond nid dim ond y rheini) a oedd yn ymwneud ag ailagor Adeilad y Pierhead ar ôl ei ailwampio. (WAQ55700)

***Rhoddwyd ateb ar 03 Mawrth 2010***

**Lorraine Barrett AC, Comisiynydd y Cynulliad Cynaliadwy:** Ar 1 Mawrth 2010, ail-lansiwyd y Pierhead fel lle sy'n galluogi pobl i fynegi eu barn a lleisio'r materion sydd o bwys iddynt, fel unigolion, cymunedau neu sefydliadau.

Mae'r Pierhead yn adeilad lle gellir cynnal digwyddiadau a chynadleddau sy'n ategu gwaith y Cynulliad, ac mae'n cynnwys arddangosfeydd rhyngweithiol sy'n adrodd hanes yr adeilad eiconig hwn.

Bydd Aelodau'r Cynulliad hefyd yn gallu cynnal digwyddiadau a noddir ganddynt gyda rhanddeiliaid fel elusennau a charfannau pwyso – bydd yn adeilad gwleidyddol ond nid yn wleidyddol bleidiol.

Felly, er mwyn i'r adeilad lwyddo mae'n rhaid i'r cyhoedd a rhanddeiliaid fod yn ymwybodol o'i rôl fel lle i gynnal dadleuon cyhoeddus, ac fel rhan pwysig o ystâd y Cynulliad ym Mae Caerdydd. Yn ogystal, roedd y buddsoddiad cyfalaf, a oedd yn gysylltiedig â gwaith adnewyddu'r adeilad rhestredig Gradd 1, yn golygu bod angen gwneud gwaith marchnata a oedd yn cyd-fynd â hynny.

Ail agorwyd y Pierhead yn swyddogol ar 1 Mawrth. I nodi hynny, cafwyd gweithgareddau amrywiol ac agorwyd yr adeilad i ymwelwyr. Digwyddodd yr agoriad swyddogol am 11.00 a daeth dros 120 o ymwelwyr, gan gynnwys staff a oedd yn gweithio yn y Pierhead dros 30 mlynedd yn ôl, Cymdeithas y Llynges Fasnachol, contractwyr a oedd yn ymwneud â Phrosiect y Pierhead a phlant o Ysgol Gynradd Mount Stuart.

Yn dilyn yr agoriad swyddogol, defnyddiodd Canolfan Llywodraethiant Cymru yr adeilad ar gyfer ei ddarlith Dydd Gŵyl Ddewi flynyddol. Traddodwyd y ddarlith gan yr Ustus John Thomas, a daeth 98 o bobl i wrando arno. Wedi'r ddarlith, agorwyd y Pierhead i'r cyhoedd. Rhwng 13.00 a 16.30, daeth 250 aelod o'r cyhoedd i ymweld â'r adeilad.

Ar ei ddiwrnod agoriadol, daeth cyfanswm o dros 468 o bobl i ymweld â'r Pierhead.

Ceir dadansoddiad isod o'r costau marchnata fesul eitem a oedd yn gysylltiedig â chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd a rhanddeiliad yng Nghymru o'r ffaith bod y Pierhead yn ailagor. Mae eitemau sydd wedi'u marcio â seren (*) yn nodi iddynt gael eu defnyddio mewn pecynnau gwybodaeth ar gyfer y chwedeg Aelod Cynulliad hefyd.

Mae dadansoddiad o gost uned y pedair eitem a oedd wedi'u cynnwys ym mhecynnau gwybodaeth yr Aelodau'n dangos mai cost pob pecyn oedd £1.21.

| Eitem | Nifer | Cost (£ ) |
|---|---|---|
| Taflen i hyrwyddo'r Pierhead* | 1310 | 814.00 |
| Ffotograffiaeth | | 1,000.00 |
| Crysau T hyrwyddol i staff | 60 | 706.41 |
| Matiau diod* | 5,000 | 1,991.63 |
| Pinnau lapél coffaol* | 300 | 358.38 |
| Taflunio delweddau | | 0 |
| Stensil ar gyfer taflunio delweddau | | 147.99 |
| Dylunio poster hysbysebu chwe tudalen | | 280.00 |
| Gosod hysbyseb chwe tudalen | | 5,679.45 |

| | | |
|---|---|---|
| Cardiau post llun* | 400 | 0 |
| Dylunio gwahoddiadau ar gyfer agoriad y Pierhead | | 180.00 |
| Costau argraffu gwahoddiadau | 100 | 415.00 |
| Amlenni (isafswm archebu) | 500 | 110.00 |
| Tâp Pierhead | | 279.00 |
| Baneri ger y fynedfa | 2 | 740.25 |
| | | **12,702.11** |